LLEWYRCHED FELLY EICH GOLEUNI

# Y Llusern

Eglwys Ebeneser Tachwedd 2022 Cyfrol 93 Rhif 5

## Dathlu&Diolch

Cafwyd Sul Diolchgarwch arbennig eleni gyda chyfle i ddathlu haelioni Duw tuag atom gan ddiolch am ryfeddodau'r cread a'r bendithion cyson a gawn ganddo. Yn y bore roedd gweithgarwch Llanllanst pob oed. Roedd criw Llanllanast wedi treulio cryn amser yn paratoi adnoddau o flaen llaw o dan arweiniad Huw a Luned Aaron. Gwerthfawrogwn yn fawr iawn y gwaith y maent yn ei gyflawni.


Yn lle cynnal oedfa arferol yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd, addurnwyd y neuadd yn hydrefol a gosodwyd 8 bwrdd gyda gweithgareddau amrywiol. O'r dechrau yn deg roedd paned ar gael a naws hyfryd a

Parhâd ar dud. 3

## PENBLWYDD HAPUS

Ar ddechrau mis Hydref fe ddathlodd dwy o'n haelodau, sef Mair Evans ac Eira Jones, benblwyddi arbennig iawn. Mae'n rhyfedd meddwl fod y ddwy mewn oedran mor deg gan fod ysbryd ifanc a bywiog yn rhan o gymeriad y ddwy ohonynt. Ar y 1af o Hydref yr oedd Mair Evans, Maesglas, yn dathlu ei phen-blwydd yn 100 oed. Llongyfarchwn hi yn fawr iawn ar gyrraedd y garreg filltir nodedig hon. Wrth wneud hyn rydym yn diolch i'r Arglwydd amdani ac am ei hymroddiad a'i ffyddlondeb i waith yr Arglwydd Iesu trwy gydol ei hoes mewn amrywiol eglwysi yn Aberystwyth, Casnewydd, Bae

Parhâd ar dud. 2



# PENBLWYDD HAPUS

(parhâd o dud. 1) Colwyn, Llundain ac yma yn Ebeneser, Caerdydd. Trwy'r degawdau bu yn ddiwyd, yn hael ac yn ffyddlon i holl weithgareddau'r eglwys. Pobl fel hi yw colofnau cadarn ein heglwysi a halen y ddaear. Yr oedd hi a'i diweddar Emrys yn gyfeillion ffyddlon a thriw i nifer fawr o weinidogion ac yn barod iawn eu cymwynas iddynt. Roedd Maesglas, eu cartref, pob amser yn aelwyd gynnes llawn lletygarwch lle'r oedd gweinidogion yn cael croeso tywysogaidd, lluniaeth a llety. Bu dathlu mawr dros gyfnod ei phen-blwydd gyda theulu, cyfeillion a ffrindiau Ebeneser yn ymuno gyda hi i nodi'r achlysur.




**D**ydd Sul 16eg Hydref oedd dyddiad pen-blwydd Eira Jones yn 90 oed. Llongyfarchiadau mawr iddi hithau. Mae Eira hefyd tros y blynyddoedd wedi bod yn gaffaeliad aruthrol i deulu Ebeneser ers iddi ddod i'n plith i loywi ei Chymraeg yn wraig ifanc 17 oed. Fe loywyd ei Chymraeg ac fe loywodd hi gymdeithas Ebeneser trwy ddefnyddio ei doniau i hyrwyddo gwaith y Gwaredwr yn ein plith. Bu'n ffyddlon i holl weithgareddau'r eglwys, yn yr oedfaon, yr ysgol Sul, cwrdd gweddi gan gymryd rhan yn gyhoeddus a chyfeilio'n gyson. Mor braf yw cael ei hadnabod a chael dathlu ei phen-blwydd. Bu hithau yn dathlu gartref gyda'r teulu a hefyd gyda ni yn Ebeneser. Yn dilyn yr oedfa ddiolchgarwch bnawn Sul 16/10 fe gafwyd te parti yng nghaffi'r Methodistiaid. Canwyd "pen-blwydd hapus" yn egnïol, llyncwyd degau o baneidiau o de a llowciwyd cacenni danteithiol Gill Lewis. Diolch bawb. Ond mae'n diolch pennaf i'r Arglwydd Dduw am gael bod yn rhan o gymdeithas arbennig y saint yn Ebeneser.







**Cylchgronau - O**s hoffech gael copi o'r *Tyst* cysylltwch gydag Alison Jones. Os hoffech gael copi o'r *Cristion* cysylltwch gydag Arwel Williams ac os hoffech gael copi o fyfyrdodau *Gair y Dydd* cysylltwch gyda Petra Bennett. Os hoffech gael copi o'r Dinesydd cysylltwch gyda Gwilym Dafydd.

# Dathlu&Diolch

(Parhâd o dud. 1) chyfeillgar yn cael ei greu. Gallai plant ac oedolion symud o fwrdd i fwrdd yn gwneud crefftau amrywiol neu chwarae gêm. Roedd cyfle hefyd i drafod o dan arweiniad Arfon yr hyn a ddywed y Beibl am haelioni Duw. Wedi'r holl weithgareddau daeth pawb at ei gilydd i ganu cân ac i wrando ar neges gan Huw Aaron.



Pwysleisiodd Huw, trwy gyfrwng tun ffa pob, fod gennym gymaint o resymau i ddiolch i'r Arglwydd. I gloi'r digwyddiad fe gawsom gyd-fwyta danteithion o bob math oedd wedi paratoi ar ein cyfer.

Yna yn oedfa'r pnawn cafwyd oedfa Ddiolch yn dwyn y teitl “Tymhorau'r Flwyddyn”. Ysgrifennwyd yr oedfa gan y diweddar Barch. John Lewis Jones ac fe'i haddaswyd gan Alun. Darllenwyd y sgript gan Gill Lewis, Mair Robins, Eleri Williams, Gwenda Lewis, Ifan Roberts, Bethan Hayes, Catrin Roberts a chyfeiliwyd ar yr organ gan Helen Thomas. Diolch o galon i bawb a gymerodd ran yn yr oedfa fendithiol. Yn dilyn yr oedfa cafwyd te a theisennau yn y caffi, i ddathlu pen-blwydd arbennig Eira Jones, mae'r hanes am hyn uchod. Hoffem ddiolch i bawb a gynorthwyodd gyda'r trefnu a'r paratoi ar gyfer y Sul arbennig hwn. Bu llu o aelodau wrthi'n brysur iawn ac yr ydym yn eu dyled am eu cymwynasgarwch.



# NEWYDDION

**Cleifion**

Y mae Hazel Doull bellach gartref o'r ysbyty yn cryfhau.
Cofiwn am Helen Hilling sy'n parhau i dderbyn triniaeth.

Cofiwn hefyd am y rhai hynny sy'n gaeth i'w cartref neu i gartref gofal: Rosaline Bowen, Beti Pierce, Mair Bennett, Delor Wedlake, Hazel Doull, Rhiannon Jones, Mair Evans.

Cofiwch weddïo drostynt a chodi'r ffôn am sgwrs.

**10K**

Ar nos Wener 7fed o Hydref cymerodd Petra Bennett a Lis Decaro ran ar daith gerdded 10K o'r enw 'Shine Night Walk' yng Nghaerdydd i godi arian i elusen Cancer Research UK. Llongyfarchiadau iddynt ar eu llwyddiant. Llwyddwyd i godi £670.



**Pacistan**

Yn dilyn y newyddion am lifogydd echrydus ym Mhacistan cynhaliodd Ebeneser gasgliad dros ddau Sul a llwyddwyd i godi £600 i'w anfon ymlaen i fudiad DEC. Diolch i bawb ohonoch am eich haelioni.

**Cerdded**

Tachwedd 18 - 28 bydd Catrin Wooler yn cerdded ym Mhatagonia er budd elusen Marie Curie er cof am ei diweddar ŵr Dave a'i mam Freda. Os hoffech gyfrannu gellir gwneud trwy'r ddolen hon: https://www.justgiving.com/fundraising/catrin-wooler?

**Operation Christmas Child**

Mae Ebeneser unwaith eto yn cefnogi apêl OCC i baratoi blychau o anrhegion i'w rhoi i blant yn fyd-eang dros gyfnod y Nadolig. Gellir casglu bocs a thaflen gyda chyfarwyddiadau arni yn yr oedfaon. Mae angen dychwelyd y bocs wedi ei lenwi erbyn **dydd Sul 13eg Tachwedd.**

**Côr Caerdydd**

Penblwydd hapus iawn i Gôr Caerdydd ar gyrraedd ei benblwydd yn 30ain oed. Cynhaliwyd cyngerdd arbennig yn Y Tabernacl, yr Ais, er mwyn nodi'r achlysur. Mae nifer o aelodau Ebeneser yn canu yn y côr hwn.

## NOSON GYRI

Cynhelir noson Gyri yn nhŷ bwyta'r Empire, Albany Road nos Fawrth 22 Tachwedd am 7.00. Pris £20.00 - Elw tuag at Tir Dewi. Rhowch eich enwau ar y daflen yn yr oedfaon neu i Gill neu Alun, erbyn dydd Sul 13eg Tachwedd.



## HADAU HAUL

Diolch i bawb fu'n tyfu blodau haul yn ystod yr haf i godi arian a hefyd i gofio am y dioddefaint yn Iwcrain. Llwyddwyd i godi dros £300. Diolch hefyd i Arwel ac Eleri am ein hannog trwy ddosbarthu'r hadau.

---

## CLWB SÊR

Mae Clwb Sêr wedi bod yn cyfarfod bob bore Sul yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd ac rydym yn ceisio annog rhagor o deuluoedd i ymuno gyda ni yn gyson. Er rhaid cyfaddef fod hynny yn dalcen caled ar hyn o bryd. Hoffem eich annog i weddïo dros y gwaith hanfodol hwn ym mywyd eglwys Ebeneser gan ofyn i'r Arglwydd roi ar galon rhieni i ddod a'u plant i ddysgu am Iesu.

Fel arbrawf bydd Clwb Sêr yn cael ei gynnal am 3.00 ar bnawn Sul yn ystod mis TACHWEDD yng Nghapel y Methodistiaid yr Eglwys Newydd. Cynhelir llawer iawn o weithgareddau i blant ar fore dydd Sul e.e., rhedeg, rygbi, pêl droed, a chawn weld os yw'r pnawn yn fwy hwylus i'r teuluoedd na'r bore.

Diolchwn yn fawr iawn i'r tîm ffyddlon sydd wrthi yn paratoi a dysgu'r plant o fis i fis am eu hymroddiad.

**ODID**

Y mae astudiaeth Feiblaidd ODID yn parhau i gyfarfod ac o'r diwedd rydym yn mynd o dŷ i dŷ. Cynhelir y cyfarfodydd nesaf - os Duw a'i myn - ar Dachwedd 15, 29. Rhagfyr 13. Ionawr 17, 31 a Chwefror 14. Yn y cyfarfodydd hyn byddwn yn dilyn y gyfres hon gan Tim Keller, "*The Prodigal God: Finding Your Place at the Table*." Dewch i fod yn rhan o'r drafodaeth.

# CALENDR ADFENT-O-CHWITH**□**REVERSE ADVENT CALENDAR□


Wrth gofio am y tlodi enbyd yn ein cymdeithas ar hyn o bryd (gweler erthygl Tlodi yn y rhifyn hwn o'r Llusern), dyma awgrym ar gyfer un weithred gallwn ei wneud er mwyn estyn llaw i'n cyd-ddyn yng Nghaerdydd, yn arbennig y rhai hynny sy'n ddigartref, neu yn geiswyr lloches.

Yn ystod cyfnod yr Adfent, mae' r byd yn ein hannog i brynu calendrau adfent o bob math, yn llawn danteithion, a chyfri'r dyddiau tan y Nadolig. Ac wrth agor ffenest bob dydd, ceir "rhodd". Mae'r calendrau adfent yn amrywio o siocled, diodydd fel gin neu gwrw, neu bersawr ayyb. A'r syniad ydy ein bod yn cael rhodd yn ddyddiol, gydol cyfnod yr Adfent.

Ond mae'r calendr adfent o-chwith yn troi'r cysyniad ar ei ben, ac yn ein hannog i **roi** rhywbeth o'r neilltu bob dydd. Beth am roi 1 eitem bwyd bob dydd yn ystod cyfnod yr adfent?

Prynwch galendr adfent syml i chi'ch hun, (heb ddanteithion) ac wrth agor un ffenest bob dydd o 1 tan 24 Rhagfyr, cofiwch roi **un eitem bwyd** i'r bocs bob dydd. Neu gallwch islwytho templed calendr adfent o chwith o'r rhyngrwyd, a chynnwys lluniau nwyddau i'w hychwanegu, i'ch atgoffa bob dydd.

**Syniadau eitemau i'w cynnwys.** Bwydydd sychion megis reis, pasta, tuniau pysgod, tuniau ffrwythau, tuniau llysiau a tuniau o gig neu gawl; grawnfwyd, te, coffi, siwgr, bisgedi, siocled ayyb.



Erbyn erbyn noswyl y Nadolig bydd gennych fasged/bocs neu hampyr bwyd ar gyfer un teulu neu unigolyn mewn angen. Lapiwch y bocs mewn papur Nadoligaidd, a chynnwys neges fer yn dymuno'n dda i bwy bynnag fydd yn derbyn y rhodd.

Trefnwch bod gwirfoddolwyr o'r eglwys yn casglu'r bocsys bwyd, a'u cludo naill ai i Fanc Bwyd lleol, neu elusen e.e. Enfys Gobaith neu Ganolfan Oasis. Cysylltwch gyda'r elusen ymlaen llaw i drefnu amser cyfleus i gyflwyno'r blychau cyn y Nadolig.

**"Rhaid i bawb roi o wirfodd ei galon, nid o anfodd neu o raid, oherwydd rhoddwr llawen y mae Duw'n ei garu." 2 Cor 9:7**

# MAHSA AMINI

Ers yr 16eg o Fedi y mae gwrthdystiadau wedi cydio mewn llawer o ddinasoedd yn Iran. Arweinir y rhain yn bennaf gan ferched ifanc a hynny yn erbyn gormes yr awdurdodau. Yn aml yn y protestiadau hyn, y mae merched yn torri eu gwalltiau ac yn llosgi eu penwisgoedd yn gyhoeddus. Mewn byr o amser, maent wedi lledu ar hyd a lled y byd gan gynnwys Cymru. Ar ddydd Sadwrn 02 o Hydref, fe gynhaliwyd gwrthdystiad yn y brifddinas i dynnu sylw at farwolaeth Mahsa Armini. Ei phechod marwol oedd gwisgo penwisg yn anghywir yn Tehran ar y 13eg o Fedi. Cafodd ei harestio gan “heddlu moes” Iran, sy’n cadw golwg ar foesoldeb y boblogaeth ac y mae hynny’n cynnwys y ffordd mae merched yn gwisgo.

**CHWYLDRO ISLAMAIDD -** Un o ganlyniadau Y Chwyldro Islamaidd o dan arweiniad yr Ayatollah Khomeini ym 1979 oedd bod rheolau gwisg a diwyg llym wedi dod i rym, yn enwedig ar gyfer menywod. (Y mae rheolau hefyd ar gyfer dynion sydd ddim mor llym, ond disgwylir iddynt wisgo yn weddus.) Disgwylid i ferched guddio eu gwalltiau yn llwyr gyda hijab (penwisg) a gwisgo dillad llac oedd ddim yn dangos croen (ar wahân i’r wyneb) na ffurf eu cyrff. [Daw eu cyfiawnhad am y rheolau ynglŷn â gwisg merched o’r Qur’an 24:31] Ond yn ddiweddar y mae llawer o bobl ifanc wedi gwrthod cydymffurfio ac y mae hynny’n codi gwrychyn yr awdurdodau.

**MOESLU -** Sefydlwyd yr “heddlu moes” sef y Gasht-e Ershad tua 15 mlynedd yn ôl i gadw golwg ar foesoldeb a diwyg trigolion. Fel arfer maent yn rhybuddio unigolion sy’n torri rheol gwisg ar lafar ond weithiau maent yn arestio pobl gan eu cludo i ganolfannau lle maent yn cael eu “hail-addysgu.” Dyma yn rhannol ddigwyddodd i Mahsa Amini am beidio gwisgo penwisg yn gywir. Fe’i harestiwyd a thridiau yn ddiweddarach fe fu farw. Dywed yr awdurdodau ei bod wedi cael trawiad ar y galon ond y mae eraill yn dweud ei bod wedi ei cham-drin yn gorfforol. Dyma'r wreichionen gynneuodd y tân sy’n llosgi yn Iran.

**DEWRDER -** Bellach y mae marwolaeth Mahsa Amini wedi ysgogi llawer o fenywod ifanc Iran i frwydro dros hawliau, cyfiawnder a rhyddid i ddewis. Yn y dyddiau diwethaf y mae nifer o fideos wedi ymddangos o ferched yn gwrthod plygu i’r awdurdodau gan fynegi condemniad chwyrn tuag at y rhai sy’n rheoli. Rhaid edmygu eu dewrder aruthrol yn wyneb yr hyn all ddigwydd iddynt. Un arwyddair sydd wedi ei fabwysiadu gan y gwrthdystwyr yw “Menyw, bywyd, rhyddid.” Nid brwydr yw hon yn unig am wisg neu benwisg, na, y mae’n llawer mwy na hynny. Mae’r menywod yn brwydro dros hawliau sylfaenol i gael rhyddid oddi wrth orthrwm; dros gyfiawnder cymdeithasol ac am yr hawl i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain.

Y mae galw arnom ninnau i sefyll gyda hwy yn eu brwydr. Rhai o egwyddorion sylfaenol teyrnas Dduw yw cyfiawnder a heddwch i bawb. Os hoffech anfon neges at eich aelodau seneddol ynglŷn â hyn cysylltwch gyda fi trwy aluntudur@btinternet.com i gael templed llythyr yn y Gymraeg a’r Saesneg.

Mae’r ARGLWYDD bob amser yn deg,
ac yn rhoi cyfiawnder i’r rhai sy’n cael eu gorthrymu.
- Salm 103:6

## Gwasanaethau ar CD

**O**s hoffech gael copi o'r gwasanaethau ar y Sul ar CD wedi ei bostio i'ch cartref cysylltwch gyda Carys Mair Jones ar 07824 337251.

## DILLAD A BWYD

**M**ae elusen Enfys Gobaith yn ddiolchgar iawn o'r bwyd a'r dillad yr ydych wedi eu cyfrannu yn ystod y misoedd diwethaf. Maent yn cael eu rhoi yn gyson i'r anghenus yma yng Nghaerdydd. Diolch i chi am eich haelioni.

**Byddwn yn casglu bwydydd sychion yn ystod yr wythnos gyntaf lawn o bob mis.**

Os hoffech gyfrannu, tuniau llysiau, ffrwythau, cig, pysgod, cawl, ffa ayyb; pasta, reis, te, coffi, llaeth UHT byddem yn dra diolchgar. Cysylltwch gyda Tudur Jones er mwyn trefnu casglu.

**Paradise Run -** Y mae elusen Enfys Gobaith am ailgychwyn y Paradise Run fydd yn bwydo'r digartref yng nghanol dinas Caerdydd pob nos am 8.00 yh. Mae Ebeneser yn codi tîm i helpu ar nos Sul 1 waith pob 4 wythnos. Os gallwch chi helpu anfonwch destun at Alun ar 07814 536208

**Recordiadau -** Gellir gwrando ar holl bregethau Ebeneser ar wefan Soundcloud. Maent yn cael eu gosod yno'n wythnosol. Diolch i Tudur.Gellir gwylio ffrwd byw o oedfa bore Ebeneser ar ein tudalen Facebook ac yna ar Youtube. Diolch yn fawr iawn i Ryan Jones am ei help.

**Tîm Digidol -** Rydym yn chwilio am aelodau i helpu gydag ochr ddigidol bywyd Ebeneser. Bellach yn wythnosol y mae elfennau digidol sydd yn rhan bwysig o'n gwaith a'n tystiolaeth. E.e., PowerPoints, ffrwd byw, podlediad, Youtube, Trydar (Twitter), Gweplyfr (Facebook), cryno ddisgiau o'r oedfaon a'r wefan.

**Gosod a Gofal -** Hoffem ddiolch i'r holl aelodau sydd wedi cynorthwyo gyda gosod popeth yn ei le ar fore Sul a hefyd gyda gweithredu rheolau hylendid COVID-19. Mae wedi golygu llawer o waith ychwanegol. Diolch i Eynon am baratoi'r rota ac i Tudur am ei holl help.

## CYFRANIADAU

**Diolch yn fawr iawn i bawb ohonoch sydd wedi anfon cyfraniadau at waith Eglwys Ebeneser. Bellach mae'r Adroddiad Blynyddol 2021 yr eglwys wedi ei bostio at yr holl aelodau. Diolch i bawb fu wrthi'n paratoi yr Adroddiad ac i Eilir am ei holl waith.**

Mae nifer o aelodau bellach yn cyfrannu'n fisol trwy archeb banc. Os nad ydych eto wedi cael cyfle i gyfrannu hoffem eich gwahodd i barhau i gyfrannu at waith yr eglwys, un ai:

Trwy siec yn daladwy i Eglwys Ebeneser Caerdydd, at y Trysorydd, Eilir Jones, 9 Clos y Bryn, Caerdydd. CF14 6TR. Neu, taliad yn uniongyrchol i gyfrif banc HSBC yr Eglwys – cod sortio 40-16-35, rhif y cyfrif 81042882, gan nodi eich enw fel cyfeirnod. Gyda diolch o flaen llaw am eich haelioni.

## ANGOR

Pob pythefnos y mae Angor, Grangetown yn cyfarfod yng nghanolfan Reach am 4.30 ar bnawn Sul. Bryd hynny fe gynhelir oedfa cwbl anffurfiol gyda dishgled, caneuon mawl cyfoes, cyfnod o weddi a sgwrs ar destun Beiblaidd. Yn ddiweddar maent wedi bod yn edrych ar yr hanesion yn Genesis.




Bydd y cyfarfod Nadoligaidd ychydig yn wahanol eleni oherwydd bod Angor wedi gwahodd band mawl Adlais i arwain yr addoliad. Cynhelir yr addoliad hwn ar 11eg Rhagfyr yng nghanolfan Reach, Grangetown.

## Y CYLCH

Mae'r Cylch yn parhau i gyfarfod pob pythefnos yng nghaffi'r Roundabout, yr Eglwys Newydd er mwyn cymdeithasu a phaneidio. Beth am i chi ymuno gyda hwy a dod â ffrind gyda chi? Mae cymdeithas gynnes i'w chael yno.




## CERDDORFA PHILHARMONIC

Cynhelir Cyngerdd "A Night at the Movies" yn neuadd Dewi Sant ar yr 2il Rhagfyr 7.30. Pris: £13.00. Mae dwy o aelodau Ebeneser yn chwarae yn y gerddorfa, sef Gwenda Lewis ac Esyllt Jones. Rhowch eich enwau ar y daflen yn yr oedfa i archebu tocyn neu anfonwch destun at Alun 07814 536208

**CERDDED** - Tachwedd 18 - 28 bydd Catrin Wooler yn cerdded ym Mhatagonia er budd Marie Curie er cof am ei diweddar ŵr Dave a'i mam Freda. Os hoffech gyfrannu gellir gwneud trwy'r ddolen hon. https://www.justgiving.com/fundraising/catrin-wooler

**AGOR Y LLYFR** - Testun cyffro mawr i griw Agor y Llyfr Cyngor Eglwysi Cymraeg, Caerdydd oedd cael mynd yn ôl i ysgol, am y tro cyntaf ers yr haint, i gyflwyno hanes Beiblaidd i ddisgyblion Ysgol Glan Morfa. Testun y ddramodig oedd Y Samariad Trugarog ac fe gyflwynwyd gwers yr Arglwydd Iesu ar fod yn gymydog da i'r rhai hynny sydd mewn angen.



Os hoffech chi fod yn rhan o dim Eglwysi Caerdydd cywylltwch gyda Catin Roberts ar catrin.e.roberts@btinternet.com

**TIR DEWI** - Cofiwch y byddwn yn casglu'r blychau Cadw mi gei sydd gennych ar ddiwedd y flwyddyn. Gobeithiwn y byddwn yn codi rhai cannoedd wrth i'n hymdrech tros yr elusen hon ddirwyn i ben.

**BWYDYDD** - Diolch i bawb a gyfrannodd fwydydd sychion ar gyfer ein Gŵyl Ddiolchgarwch. Aethpwyd a llond car o'r bwydydd y tro hwn i ganolfan Banc Bwyd Caerdydd yn Sblot.

**CYRDDAU PREGETHU**

Braint fawr oedd cael croesawu ein cyn-weinidog Y Parch. Dr. Geraint Tudur atom i agor y gair yn ein cyfarfodydd pregethu ar 9fed Hydref. Braf hefyd oedd cael croesawu Carolyn i'n plith. Cafwyd dwy bregeth rymus a heriol ganddo. Yn y bore fe'n harweiniodd i'r Llythyr at yr Hebreaid lle mae'r awdur yn tynnu ein sylw at odidowgrwydd Iesu. Pwysleisiodd hefyd fod Duw ein galw i fod yn ffyddlon ac y wydn fel Cristnogion heddiw wrth wynebu'r heriau sydd o'n cwmpas.

Yn y pnawn cawsom y fraint o groesawu nifer o gyfeillion o eglwysi Cymraeg eraill Caerdydd atom. Testun y bregeth oedd y weinidogaeth Gristnogol a beth yw ei phum prif nodwedd. Ar ddiwedd yr oedfa diolchodd Alun i Geraint am ei genadwri arbennig gan ddymuno bendith iddo ef a'r teulu i'r dyfodol. Os hoffech wrando ar y pregethau gellir eu canfod yma ar Soundcloud https://soundcloud.com/user-336770346

## Calendr

*Cynhelir oedfa'r bore yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd, Old Church Rd, CF14 1AD

*Cynhelir oedfa'r pnawn yng nghapel y Methodistiaid, Penlline Rd, CF14 2AA

*Cynhelir **Angor** yn Reach Centre, Avondale Street, Grangetown, CF11 7DT



7.30 - Pob nos Lun, cynhelir y **cwrdd gweddi** yng nghapel y Methodistiaid ac ar Zoom. Dolen yn yr e-bost wythnosol.

7.30 - Pob pythefnos, ar nos Fawrth, cynhelir **Astudiaeth Feiblaidd, ODID** o dŷ i dŷ ac ar Zoom. Dolen yn yr e-bost wythnosol.

## Tachwedd

**13 Dydd Sul.** Oedfaon o dan arweiniad Alun. 10.00 – Mawl yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd. 3.00 – Clwb Sêr yng nghapel y Methodistiaid ac oedfa o fawl. 4.30 – Angor Grangetown*

**20 Dydd Sul**. Oedfaon o dan arweiniad Alun. 10.00 – Mawl yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd. Cymun. 3.00 – Llanllanast yng nghapel y Methodistiaid ac oedfa o fawl. 7.30 – Cwrdd gweddi Angor Grangetown.

**22 Tir Dewi.** Noson Gyri yn yr Empire Albany Road am 7.30. Pris £20.00.

**27 Dydd Sul.** Oedfaon o dan arweiniad Alun. 10.00 - Mawl yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd. 3.00 - Clwb Sêr yng nghapel y Methodistiaid ac oedfa o fawl. 4.30 - Angor Grangetown*

## Rhagfyr

**02 Cerddorfa Ffilharmonig** - Cyngerdd "A Night at the Movies" yn neuadd Dewi Sant ar yr 2il Rhagfyr 7.30. Rhowch eich enwau ar y daflen yn yr oedfa i archebu tocyn. Pris: £13.00.

**03 Dydd Sadwrn.** Taith Gerdded Gwylio Adar o dan arweiniad Eirian Dafydd. 10.15 - 11.30, cwrdd tu allan i Ganolfan Wardeniaid Fferm y Fforest. Parcio cyfleus gerllaw. Paned wedyn yng Nghaffi'r Methodistaidd 11.45. £5 y pen er budd elusen Tir Dewi.

**04 Dydd Sul.** Oedfaon o dan arweiniad Alun. 10.00 – Mawl yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd a Clwb Sêr. 3.00 - Oedfa o gymun yng nghapel y Methodistiaid 4.30 – Angor Grangetown*

**11 Dydd Sul.** 10.00 - Oedfaon o dan arweiniad Alun. 10.00 – Mawl yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd a Clwb Sêr.3.00 Oedfa yng nghapel y Methodistiaid. 4.30 – Angor Grangetown. Cyfarfod arbennig gyda'r band mawl Adlais.

**18 Dydd Sul. 10.**00 - Oedfa Nadolig teuluol yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd. 6.30 - Oedfa garolau dwyieithog gyda'r eglwys Fethodistaidd.

# EBENE-SÊR











